REMEMBER A CHARITY IN YOUR WILL
Help the work live on...

# Awgrymiadau da: Wyth cam i adeiladu eich strategaeth codi arian trwy gymynroddion

**1. Dewch i adnabod eich rhoddwyr tebygol:** Ymchwiliwch i'ch cymynroddwyr tebygol i'ch helpu chi i ddeall pwy ydynt a beth sy'n eu gyrru. Cofiwch ei fod yn bosibl nad ydynt ar eich cronfa ddata o gefnogwyr – gallent fod yn wirfoddolwyr, yn fuddiolwyr, yn bartneriaid corfforaethol, neu'n llawer o bobl eraill. Man dechrau da fyddai ceisio nodi'r rheini ag ymrwymiad hirdymor i'ch elusen a deall eu cysylltiad â'r achos. Ystyriwch y cysylltiadau sydd gennych chi â nhw a chefnogwyr cymynroddion posibl eraill. A allech ychwanegu cwestiwn at eich arolwg cefnogwyr neu ar gyfathrebiadau eraill, yn gofyn a hoffent wybod mwy am adael rhodd yn eu Hewyllys neu i roi gwybod i chi os ydynt eisoes wedi gwneud hyn?

**2. Diffiniwch eich cais am gymynroddion:** Adeiladwch ar yr hyn rydych chi'n ei wybod am eich cefnogwyr a'u gwerthoedd i ddatblygu neges am gymynroddion sy'n cyfleu naratif cymhellol a galwad i weithredu cryf. Efallai mai nod y neges yw ysbrydoli eich cynulleidfa i gefnogi'r achos am genedlaethau i ddod neu eu grymuso i yrru newid ar ôl eu dyddiau. Edrychwch ar negeseuon cymynroddion elusennau eraill am ysbrydoliaeth cyn i chi lunio un eich hun. Gan mai eich cais fydd wrth wraidd eich neges am gymynrodd, mae'n bwysig profi a yw'r neges yn taro tant gyda'ch cynulleidfaoedd. A yw'n ei hysbrydoli i adael rhodd?

**3. Ceisiwch gael cefnogaeth fewnol:** Rhaid cael cefnogaeth fewnol i lwyddo gyda chymynroddion, felly ceisiwch addysgu, recriwtio a denu hyrwyddwyr mewnol o'r cychwyn cyntaf. Gwnewch yn siŵr fod gan yr holl rai hynny a allai ryngweithio â rhoddwyr posibl yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i fod yn gefnogwyr cymynroddion, o'ch Prif Swyddog Gweithredol ac Ymddiriedolwyr i'ch gwirfoddolwyr a chyd godwyr arian. Cofiwch rannu llwyddiannau â chymynroddion yn fewnol hefyd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pawb yn deall gwerth cymynroddion, ac yn frwdfrydig i helpu.

**4. Cynlluniwch sut byddwch yn mynd ati:** Cynlluniwch sut a ble allwch chi ymhél â'ch cymynroddwyr posibl, lle byddwch chi'n gallu diferu'r neges fesul tipyn ar bwyntiau allweddol o'u taith gefnogi. Er y gall hyn gynnwys unrhyw beth o bostiadau cymdeithasol ac e-byst i ymgyrchoedd post uniongyrchol a chanolbwyntiedig, cofiwch gyfathrebu'n bersonol ac yn unigol lle'n bosibl, boed hynny drwy lythyrau, galwadau neu ddigwyddiadau. Pa gyfleoedd sydd gennych chi i ddechrau sgyrsiau am gymynroddion drwy eich sianeli, gwasanaethau neu wefannau presennol?

**5. Ewch ati i ddenu ac ysbrydoli eich cynulleidfa:** Ceisiwch feithrin cydberthnasau triw, gan feithrin ymddiriedaeth a rhannu storïau ysbrydoledig o gymynroddion a'r hyn y gallant ei gyflawni. Rhowch wybod i gefnogwyr y bydd eu rhodd yn cael ei werthfawrogi, waeth beth yw ei faint, ac y bydd yn gallu cyd-fynd â'u dymuniadau ar gyfer eu hanwyliaid. Byddwch yn rhywun y gall pobl fynd ato ac anogwch gefnogwyr i ofyn unrhyw gwestiynau i chi er mwyn rhoi cyfleoedd i chi feithrin cydberthnasau.

**6. Gwnewch hi'n hawdd:** Gall 'rhoi cymynrodd' swnio'n frawychus i rai, felly gall fod yn ddefnyddiol defnyddio'r term 'rhoi o'ch ewyllys'. Lle'n bosibl, rhannwch y camau cysylltiedig ac osgowch jargon cyfreithiol, gan ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i gefnogwyr weithredu. Ystyriwch gynnig awgrymiadau neu roi canllaw byr ar eich gwefan am sut i gynnwys elusen yn eu hewyllys a'r opsiynau gwahanol i gefnogwyr, fel gadael swm sefydlog, canran o'u hystâd neu ased neu eitem benodol. Dylid osgoi rhoi cyngor cyfreithiol. Bydd llawer o elusennau yn cynnig atgyfeirio at gyfreithiwr lleol neu rywun sy'n ysgrifennu ewyllysiau sy'n gallu rhoi'r cyngor sydd ei angen ar gefnogwyr.

**7. Gofalwch am eich cefnogwyr:** Waeth a ydych chi'n gwybod bod rhywun wedi addo gadael cymynrodd neu yn syml, eu bod yn bwriadu gwneud hynny, gwnewch iddynt deimlo'n arbennig, gan ddiolch iddyn nhw a'r teuluoedd o gymynroddwyr sydd wedi huno. Gall ymweliadau safle neu ddigwyddiadau fod yn ffordd wych o sicrhau bod cefnogwyr yn parhau i deimlo'n gysylltiedig, yn ysbrydoledig ac yn werthfawr. Defnyddiwch nhw i ddiweddaru pobl ar yr hyn rydych chi'n ei wneud, i'w cyflwyno nhw i agweddau gwahanol ar eich gwaith – ac wrth gwrs, i barhau i siarad am effaith cymynroddion.

**8. Rhowch amser iddi:** Nid opsiwn tymor byr mo codi arian trwy gymynroddion. Bydd angen i chi fod yn amyneddgar – ond mae'n debygol o fod yn werth yr aros. Gall yr elw ar fuddsoddiad neu godi arian trwy gymynroddion fod yn anodd ei guro. Ac er y gall gymryd amser i'r incwm ddod i mewn, gallwch gadw llygad ar y cysylltiad a'r cyfraddau ymateb i ymgyrchoedd, ochr yn ochr ag unrhyw roddion tebygol gan y rheini sy'n dweud eu bod wedi addo neu'n bwriadu gadael rhodd. Cofiwch mai syrpréis yw cymynrodd i elusen yn y mwyafrif o achosion, a'r cyntaf y byddwch chi'n clywed amdano fydd ar ôl i'r cefnogwr huno.

**Ni fwriedir i'r daflen hon fod yn ganllaw cynhwysfawr, ond mae rhai awgrymiadau da yma i'ch helpu gyda'ch codi arian trwy gymynroddion. Am fwy o awgrymiadau ac adnoddau, ewch i [rememberacharity.org.uk](https://rememberacharity.org.uk)**

**Mae Remember A Charity yn rhan o'r Chartered Institute of Fundraising, sydd wedi'i ymgorffori gan Siarter Frenhinol (RC000910) ac sy'n elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (Rhif 1188764) a'r Alban (Rhif SC050060).**